Siarter Myfyrwyr

Ysbrydoli Dysgu, Cyfoethogi Bywydau, Cyflawni Llwyddiant:

mwy nag addysg yn unig

Mae ein Siarter Myfyrwyr yn cynrychioli gwerthoedd a rennir staff, myfyrwyr ac Undeb Myfyrwyr Grŵp Colegau NPTC.

Mae'r Coleg yn ymrwymo i:

- Annog a hyrwyddo cydraddoldeb, parch ac amrywiaeth
- Darparu rhaglenni astudio sy'n berthnasol yn academaidd ac yn alwedigaethol ar gyfer anghenion cyflogaeth presennol a rhai'r dyfodol
- Darparu safon uchel o ddysgu ac addysgu mewn cymuned ddysgu gefnogol
- Cefnogi dysgu, llesiant ac iechyd myfyrwyr (gan gynnwys iechyd meddwl) yn unol ag anghenion unigol myfyrwyr a bodloni ei gyfrifoldebau statudol ynghylch cydraddoldeb, a diogelu i ddarparu amgylchedd dysgu diogel, yn cynnwys dulliau diogelach o ran hunanladdiad
- Darparu dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng staff a myfyrwyr a hyrwyddo'r cyfleoedd i fyfyrwyr allu lleisio eu barn a gwerthuso eu profiadau dysgu
- Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg perthnasol a darparu amgylchedd sy'n hyrwyddo'r defnydd o iaith a diwylliant Cymraeg ac i weithio mewn partneriaeth â'r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** i hyrwyddo darpariaeth addysgol Gymraeg
- Mynd i'r afael â phryderon myfyrwyr mewn modd sensitif a phroffesiynol a chyfathrebu'n brydlon ac agored
- Cefnogi myfyrwyr ac ymdrin â chwynion yn brydlon yn unol â rheoliadau
- Sicrhau ein bod yn amddiffyn diddordebau ein myfyrwyr. Cydymffurfio â'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr yn unol â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, gan gynnwys darparu gwybodaeth fanwl a chyngor ar gostau astudio a ffioedd addysgu.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn ymrwymo i:

- Annog cydraddoldeb a hyrwyddo amrywiaeth
- Amddiffyn lles myfyrwyr a'u cynrychioli ar lefel eu rhaglen, eu hysgol a'u rheolwyr
- Gweithio mewn partneriaeth ag Ysgolion ac Unedau Proffesiynol y Coleg i wella profiad a llesiant myfyrwyr.
- Darparu ystod o gymdeithasau, digwyddiadau cymdeithasol, datblygiad personol a gweithgareddau chwaraeon.

Mae myfyrwyr yn ymrwymo i:

- Ymddwyn yn unol â gwerthoedd y Coleg fel y'u cyflwynir yn y Cynllun Strategol a chydymffurfio â rheoliadau y Coleg
- Bod yn rhan o gymuned ddysgu y Coleg ac ymwneud yn llawn â'u hastudiaethau trwy gymryd rhan mewn dosbarthiadau a gweithgareddau dysgu â chymorth
- Cwblhau gwaith cwrs o fewn yr amserlen y cytunwyd arni ac ymddwyn yn gyfrifol ym mhob asesiad ac arholiad
- Cymryd rhan mewn prosesau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi dysgu neu hyrwyddo llesiant myfyrwyr.

Mae'r **Parth Myfyrwyr** yn rywle lle y gall pob myfyriwr fynd i dderbyn cymorth, cyngor a chefnogaeth am ddim mewn amgylchedd ymlaciol, croesawgar a chyfrinachol. Mae ein tîm proffesiynol a chyfeillgar yn darparu cymorth arbenigol mewn ystod o feysydd gan gynnwys diogelu, iechyd a llesiant.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Siarter Myfyrwyr, cysylltwch â: HEAdmin@nptcgroup.ac.uk

Chwilio **NPTCGroup**

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES